# P-04-466 Argyfwng Meddygol – Atal cyflwyno gwasanaeth iechyd o safon is yng ngogledd Cymru.

Geiriad y ddeiseb:

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r cynigion yn ymgynghoriad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Mae Gofal Iechyd yng Ngogeldd Cymru yn Newid yn arwain at ddarpariaeth iechyd o safon is a marwolaethau a dioddefaint dianghenraid.

Bydd y cynigion yn cael effaith andwyol ar y rhan fwyaf o feysydd darpariaeth iechyd a gwasanaethau brys ac ni ellir galw'r cynigion yn welliant mewn unrhyw ffordd, fel yr honnir. Mae'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru eisoes yn mynd â'i ben iddo, a bydd yn wynebu chwalfa lwyr os caiff y cynigion hyn eu rhoi ar waith ar eu ffurf bresennol.Mae cynigion ymgynghori presennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ofal iechyd yng ngogledd Cymru yn ymddangos yn andwyol i'r ddarpariaeth iechyd gyffredinol ac i ddiogelwch ein cymunedau. Mae hygyrchedd, darpariaeth pelydr-X, mân anafiadau, iechyd meddwl, y gwasanaeth ambiwlans, y gwasanaeth tu allan i oriau a gallu meddygon teulu i ddarparu gwasanaeth integredig yn mynd i gael eu taro'n benodol gan y cynigion – gan eu bod yn cyferbynnu'n llwyr â gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn y dogfennau Law yn Llaw at Iechyd, Gosod y Cyfeiriad a Cyflenwi Gwasanaethau Gofal Brys - ymddengys ei bod hefyd yn mynd yn groes i'r "compact" a gyhoeddodd y Gweinidog Iechyd ar 25 Medi 2012.

Prif ddeisebydd: Mike Parry

Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor: 19 Mawrth 2013

Nifer y llofnodion: 306